

ATEBION ARDDODIAID

Tasg 1

Rhowch ffurf gywir yr arddodiad yn y bylchau.

1. Clywais i **amdanyn** nhw'n ennill y gystadleuaeth.
2. Gadawodd hi'r tŷ **hebddo** i.
3. Roedd can punt **ganddi** hi yn ei bag.
4. Beth rydych chi'n feddwl **ohono** fe?
5. Ymosododd y dyn **arni** hi.
6. Ewch i'r neuadd **atyn** nhw.
7. Roedd hi'n hen bryd **iddo** fe ddechrau gwrandio ar ei fam.
8. Roeddwn i'n teimlo'n flin **drostyn** nhw.
9. Bydd y llyfrau ar y ddesg a bydd y bagiau **arni** hi hefyd.
10. Dywedodd hi'r hanes **wrtho** i ddoe.
11. Gwelais i ddeg **ohonyn** nhw'n crwydro o gwmpas y parc.

Tasg 2

Treiglwch lle bo angen yn y brawddegau isod.

1. Ysgrifennodd hi baragraff arall ar **ddiwedd** y llythyr.
2. Pris y tocynnau fydd tua **phum** punt.
3. Arhosodd hi yn y gwersyll am **fis**, rwy'n meddwl.
4. Siaradodd hi dros **gyfreithiwr** y teulu.
5. Bydd e'n gadael ei swydd cyn **diwedd** y flwyddyn.
6. Byddwn ni'n ymweld â **Chastell** Henllys wythnos nesa.
7. **Mae** hi'n dod o **Gaerdydd**.
8. Roedd ganddi hi **bigyn** clust.
9. Ydyn nhw'n mynd i **feicio** bob wythnos?
10. Rhedodd y chwaraewyr yn syth i **ganol** y cae.
11. Bydd hi'n mynd â **phlant** yr ysgol i Lundain yn yr haf.

Tasg 3

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Mae hi wedi bod yn dysgu Llydaweg **er** mis Ionawr.
2. Roedd hi wedi dweud y stori **wrthot** ti.
3. Ysgrifennais i lythyr byr **ati** hi.
4. Dywedais i'r hanes **wrth** fy mrawd.
5. Mae brech yr ieir **arno** fo.
6. Wyt ti'n gwybod **o ble mae e'n dod**?
7. Mae'r llyfrau **yng nghanolfan** adnoddau'r ysgol.
8. Roedd hi'n byw **yng Nghaernarfon** ers blynyddoedd.
9. Roedd digon o **fwyd** a diod yn y parti.
10. Pan welwch chi'ch chwaer, cofiwch fi **ati** hi.
11. Roeddwn i wedi ymweld â'r cleifion yn yr ysbyty.
12. Peidiwch â chwerthin **am** ben y plant drwg.